Annwyl Cwsmer

**Swyddfa Bost® Pontarddulais**
**156 Stryd Teilo Sant, Pontarddulais, Abertawe, SA4 8RA**

**Newidiadau i'ch Swyddfa Bost® - rhowch eich barn i ni**

Rydym yn siarad â'r postfeistr ynghylch newid y Swyddfa Bost uchod i'w gwneud yn un o'n canghennau lleol ffasiwn newydd. Hoffem gael eich barn am y newidiadau cyn i ni wneud ein penderfyniadau terfynol.

Rydym yn bwriadu gwneud y newidiadau fel rhan o'r gwaith i foderneiddio ein rhwydwaith o ganghennau. Dros y pum mlynedd diwethaf rydym wedi trawsnewid dros 7,500 o ganghennau fel bod mwy o gwsmeriaid yn gallu cyrchu cynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post mewn amgylchedd modern a chyfeillgar. Rydym yn hyderus taw cael cangen leol ochr yn ochr â siop lwyddiannus yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddiogelu gwasanaethau Swyddfa'r Post cynaliadwy yn y gymuned leol yn y dyfodol.

**Eich cangen Swyddfa'r Post newydd**

Byddai cwsmeriaid yn cyrchu gwasanaethau Swyddfa'r Post mewn man gweini modern â chynllun agored sydd yn rhan o gownter y siop. Trwy gydweithio â'r postfeistr, byddem yn addasu patrwm presennol y siop, ynghyd â'r celfi gosod a'r ffitiadau er mwyn gwneud lle i dil Swyddfa'r Post pe bai angen. Bydd dewis eang o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael yn y gangen. Mae 96 y cant o gwsmeriaid yn hapus gyda'r math hwn o Swyddfa Bost.

Byddai'r gangen ar agor: Llun a Maw 08:30 - 17:30, Mer – Gwen 09:00 - 17:30 a Sad 09:00 - 12:30. Bydd modd o hyd i chi gael y rhan fwyaf o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post sy'n gyfarwydd i chi; fodd bynnag, i gael nifer fach o wasanaethau gall y bydd rhaid i chi fynd ar-lein, ffonio neu ymweld â Swyddfa Bost arall. Mae manylion am y cynhyrchion sydd ar gael drosodd. Er mwyn cael y gangen newydd yn barod, gall y bydd angen ei chau am hyd at saith diwrnod yn ystod Hydref/Tachwedd 2018 ar gyfer gwaith adnewyddu.

**Beth nesaf?**

Rydym eisiau gwybod am yr hyn sy'n bwysig i chi a hoffem wybod beth yw eich barn, yn enwedig am y pethau a ganlyn:

- Pam rydych chi'n defnyddio'r Swyddfa Bost hon a beth rydych yn hoffi amdani
- Yr hyn rydych yn ei feddwl am y Swyddfa Bost arfaethedig ar ei newydd wedd.
  Er enghraifft, byddai man gwasanaeth Swyddfa'r Post ar gownter y siop; felly, a oes gennych unrhyw gwestiynau neu unrhyw beth yr hoffech i ni ei ystyried mewn perthynas â'r lleoliad a fwriedir ar gyfer til y Swyddfa Bost; lle byddai cwsmeriaid yn aros eu tro neu'r mynediad i wasanaethau y tu mewn i'r adeilad?
- Eich barn am unrhyw newidiadau i'r oriau agor
- Os oes gennych unrhyw sylwadau am y newid i'r dewis o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post yn y gangen pe bai'r newid yn digwydd
- Os oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r cyfnod cau yn ystod yr adnewyddu neu ynglŷn â defnyddio canghennau eraill yn yr ardal.

Hefyd, ar y diwedd, fe welwch restr o gwestiynau cyffredin a allai fod yn ddefnyddiol i chi.

Mae'n hawdd rhoi eich adborth i ni wrth lenwi'r holiadur ar-lein hwylus trwy ddilyn y ddolen postofficeviews.co.uk a defnyddio'r ffwythiant chwilio naill ai yn ôl enw'r gangen, y cod post neu'r cod unigryw ar gyfer y gangen hon, sef 253642

Os oes gennych sganiwr QR ar eich ffôn symudol,
y cyfan sydd raid ei wneud yw sganio yma:

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ.
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa'r Post Cyfyngedig

PostOffice.co.uk

Byddwn yn derbyn sylwadau hyd at, ac yn cynnwys, 6 Medi 2018. Ni fyddwn yn ymateb yn unigol i chi; fodd bynnag, bydd yr adborth a gawn yn cael ei ystyried wrth i ni wneud ein cynlluniau terfynol gyda'r postfeistr.

Gallwch hefyd gynnig eich sylwadau i ni yn y ffyrdd a ganlyn:

postofficeviews.co.uk

FREEPOST Your Comments
**Dyna'r cyfan sydd raid ei ychwanegu ar eich amlen er mwyn i'ch llythyr ein cyrraedd**

comments@postoffice.co.uk

Ffoniwch: 03452 66 01 15
Ffôn testun: 03457 22 33 55

Sylwch fod eitemau a anfonir trwy Radbost yn cymryd dau ddiwrnod gwaith i gyrraedd, a heb gynnwys dydd Sadwrn na dydd Sul. Felly, caniatewch ddigon o amser i'ch sylwadau gyrraedd cyn diwedd y cyfnod ymgynghori oherwydd ni allwn ystyried adborth a gawn ar ôl y dyddiad cau.

Bydd yr holl ymatebion yn cael ei gyflwyno hefyd i'r corff gwarchod statudol annibynnol i ddefnyddwyr - y Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth yr Alban ym Mhrydain, a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon.

**Pryd fyddai'r newidiadau'n digwydd?**

Unwaith y byddwn wedi gwneud ein penderfyniadau terfynol, byddwn yn rhoi poster yn y gangen i roi gwybod i chi am ein cynlluniau terfynol. Hefyd, bydd taflen wybodaeth a fydd ar gael yn y gangen, yn amlinellu'r prif sylwadau a gafwyd a'n hymateb iddynt. Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddwn yn ysgrifennu atoch unwaith yn rhagor.

Rydym yn bwriadu gwneud y newidiadau hyn yn ystod Hydref/Tachwedd 2018. Byddwn yn gosod poster yn y gangen o leiaf bythefnos ymlaen llaw i roi'r union ddyddiad i chi. Gwnawn yn siŵr fod cyn lleied o aflonyddwch â phosibl yn cael ei achosi gan y gwaith adnewyddu.

Bydd y gangen a ganlyn yn falch o ddarparu gwasanaethau Swyddfa'r Post i gwsmeriaid yn ystod y cyfnod hwn:

- Swyddfa Bost Gorseinon, 8 Heol Alexandra, Gorseinon, Abertawe, SA4 4NW

Byddwn hefyd yn gofyn i gwsmeriaid a chynrychiolwyr lleol am adborth pellach unwaith y bydd y newidiadau wedi digwydd; bydd y manylion ar gael yn eich cangen ar ei newydd wedd yn fuan wedyn.

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

Cafodd y broses gyfathrebu hon ei chytuno â chorff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr, sef y Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth yr Alban ym Mhrydain, a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n cael ei gweithredu yn unol â'n Cod Ymarfer ar gyfer newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post, a gytunwyd â nhw. Os hoffech gael copïau o'r Cod, maent ar gael mewn canghennau, neu wrth gysylltu â ni neu wrth ymweld â'n gwefan yn: postofficeviews.co.uk. Os ydych o'r farn nad ydym wedi dilyn y broses yn gywir ac yn dymuno gwneud cwyn, byddwch cystal ag anfon llythyr neu ebost atom wrth ddefnyddio'r manylion cyswllt yn ein posteri a llythyrau ac esbonio pam. Byddwn yn archwilio eich cwyn ac yn rhoi ateb i chi cyn gynted â phosibl. Byddwn yn rhoi'r mannau cyswllt perthnasol ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr i chi. Felly, os ydych yn dal yn anfodlon ar ôl derbyn ein hymateb, gallwch ofyn iddynt am eu cymorth.

| Gwasanaethau ar gael yn Swyddfa Bost® Pontarddulais | | |
|---|---|---|
| **I gael gwybodaeth ynghylch cynhyrchion sydd ar gael ffoniwch 03457 223344 neu os ydych am wybod am werth uchaf trafodion siaradwch â'r sawl sydd y pen arall i'r ffôn. Hefyd, gall cwsmeriaid siopa ar-lein yn www.postoffice.co.uk** | | |
| | **Y gangen bresennol** | **Y gangen newydd** |
| **Post** | | |
| Post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth | ✓ | ✓ |
| Stampiau, llyfrau stampiau (Dosbarth 1af: 6 a 12 yn unig, 2il Ddosbarth: 12 yn unig) | ✓ | ✓ |
| Stampiau arbennig (dyroddiad y Nadolig yn unig) a labeli post | ✓ | ✓ |
| Signed For | ✓ | ✓ |
| Special Delivery | ✓ | ✓ |
| Dychweliadau siopa o gartref | ✓ | ✓ |
| Parseli mewndirol bach, cymedrol a mawr | ✓ | ✓ |
| Parseli Express a chontract | ✓ | ✓ |
| Post Lluoedd Prydain (BFPO) | ✓ | ✓ |
| Llythyrau a chardiau post Rhyngwladol (yn cynnwys Signed For ac Airsure) | ✓ | ✓ |
| Parseli Rhyngwladol hyd at 2kg a phapurau printiedig hyd at 5kg | ✓ | ✓ |
| Parseli Parcelforce Worldwide Rhyngwladol | ✓ | ✓ |
| Eitemau i'r Deillion (mewndirol a rhyngwladol) | ✓ | ✓ |
| Gwasanaeth ailgyfeirio'r Post Brenhinol | ✓ | ✓ |
| Local Collect | ✓ | ✓ |
| Drop & Go | ✓ | ✓ |
| **Codi arian, adneuon a thaliadau** | | |
| Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post | ✓ | ✓ |
| Codi arian bancio personol a busnes, adneuon, ymholiadau balans ac adneuo sieciau mewn amlenni (wrth ddefnyddio cerdyn, cod bar neu â llaw). | ✓ | ✓ |
| Archebion Post | ✓ | ✓ |
| Moneygram | ✓ | ✓ |
| Rhoi newid | ✓ | ✓ |
| **Talu Biliau** | | |
| Talu biliau (cerdyn, â chod bar neu â llaw) | ✓ | ✓ |
| Adlenwi allweddi | ✓ | ✓ |
| **Gyrru** | | |
| Treth y car | ✓ | ✓ |
| **Trwyddedau** | | |
| Trwyddedau pysgota â gwialen | ✓ | ✓ |
| **Teithio** | | |
| Arian Teithio wedi'i archebu o flaen llaw | ✓ | ✓ |
| Arian Teithio ar gais | **Ewros** | **Ewros** |
| Atgyfeirio yswiriant teithio | × | ✓ |
| Yswiriant teithio ar gais | ✓ | × |
| Gwirio ac Anfon Pasbort | ✓ | × |
| | | |
| Adlenwadau ffonau symudol ac E-dalebau | ✓ | ✓ |
| Terfynell Loteri Cenedlaethol | ✓ | ✓ |
| **Talu â siec** | ✓ | ✓ |

Mae'r cynhyrchion sydd wedi'u nodi â ☐ ar gael yn Swyddfa Bost
Gorseinon,
8 Heol Alexandra,
Gorseinon,
Abertawe
SA4 4NW

Oriau agor:

| | |
|---|---|
| Llun – Gwen | 09:00–17:30 |
| Sad | 09:00–14:00 |

## Cwestiynau Cyffredin

**Pam ydych chi eisiau gwneud y newid hwn?**

Mae’r newid yn rhan o raglen foderneiddio bwysig sy’n digwydd ar draws rhwydwaith Swyddfa’r Post, y fwyaf yn hanes Swyddfa'r Post Cyfyngedig. Mae buddsoddiad gan y Llywodraeth yn hollbwysig. Bydd hyd at 8,000 o ganghennau yn cael eu moderneiddio a cheir buddsoddiad ychwanegol mewn hyd at 3,000 o ganghennau cymunedol ac allgymorth.

**A fydd fy nhrafodion yn dal i fod yn breifat?**

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd cwsmeriaid y Swyddfa Bost a chwsmeriaid y siop yn ciwio gyda’i gilydd, ond bydd arwydd clir yn dynodi man gwasanaeth Swyddfa'r Post. Byddai sgrin gwasanaeth isel yn help i  sicrhau preifatrwydd, a byddai digon o le i gadw pellter oddi wrth y sawl sy’n cael gwasanaeth. Mae hyfforddiant Swyddfa'r Post yn cynnwys diogelu gwybodaeth gyfrinachol a data personol.

**Beth am ddiogelwch?**

Ni allwn fynd i fanylion am drefniadau diogelwch penodol oherwydd rydym am ddiogelu’r bobl hynny sy’n gweithio mewn canghennau Swyddfa'r Post a'r bobl sy’n eu defnyddio. Fodd bynnag, byddai mesurau diogelwch priodol mewn grym o hyd, ynghyd â  gweithdrefnau a chanllawiau cadarn y mae’n rhaid i bostfeistri a’u staff eu dilyn. Ac mae hyn i gyd yn cyfrannu at amgylchedd ddiogel.

**A fydd pobl yn dal i gael eu hyfforddi’n iawn?**

Mae ein cwsmeriaid yn haeddu cael y gwasanaeth gorau posibl. Mae pecynnau hyfforddi Swyddfa’r Post yn cael eu rhoi i bostfeistri er mwyn i unrhyw berson a gyflogir ganddyn nhw ac a fyddai’n ymwneud â thrafodion Swyddfa'r Post gael ei hyfforddi i safonau Swyddfa’r Post, fel y byddech yn ei ddisgwyl.

**A fydd digon o le?**

Er mwyn gwneud yn siŵr fod unrhyw newidiadau yn ateb safonau hygyrchedd Swyddfa’r Post, gwneir asesiad o sut y byddai’r tu mewn yn edrych ar ôl y newid. Mae hyn yn cynnwys cael lle i aros am wasanaeth, digon o le i droi cadair olwyn , a chadw mynedfeydd a llwybrau siopa yn glir o unrhyw rwystrau fel bod pobl yn gallu cyrraedd man gwasanaeth Swyddfa'r Post yn ddidrafferth.

**Fedra i weld cynlluniau’r llawr?**

Mae’r adborth a gawn gan gwsmeriaid a chynrychiolwyr lleol yn ein helpu i gyflawni’r newid, gan gynnwys y dyluniad terfynol, ar y cyd â’r postfeistr. Unwaith y bydd y newid wedi digwydd, byddwn yn gofyn i gwsmeriaid am eu hymateb i’r gwasanaeth ffasiwn newydd.

**A fydda i’n gorfod aros yn hwy i gael gwasanaeth?**

Mae’r gangen ffasiwn newydd i fod i ddelio â thrafodion syml y gellir eu cwblhau'n gyflym ac effeithlon. Bydd gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael hefyd pryd bynnag y bydd y siop ar agor; felly, gall cwsmeriaid ddewis ymweld â’r gangen pan fydd yn fwy cyfleus iddyn nhw.

**Fydda i’n dal i allu ymgymryd â bancio busnes?**

Bydd staff yn y gangen yn falch siarad â chwsmeriaid am eu gofynion unigol a therfynau trafodion ar gyfer eu trafodiad penodol.

**Fydda i’n dal i allu gadael fy mhost yn ddiogel?**

Bydd y post yn cael eu gadw’n ddiogel yn y gangen, yn barod i’w gasglu gan y Post Brenhinol.